

Ychwanegiadau Gweithredu Hinsawdd



Dysgu o grantiau'r Ychwanegiadau Gweithredu Hinsawdd yng Nghymru

Roedd Ychwanegiadau Gweithredu Hinsawdd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn gynllun peilot a ddatblygwyd i ysbrydoli gweithredu cymunedol o ystod o grwpiau cymunedol a ariannwyd gennym. Mewn partneriaeth â [Chymunedau Cynaliadwy Cymru](#) ac [Adfywio Cymru](#), fe ddarparom gyfle i grwpiau cymunedol ac elusennau a ariannwyd gan y Loteri Genedlaethol yng Nghymru ymateb i'r argyfwng newid yn yr hinsawdd. Targedwyd grwpiau na fyddent yn ymwneud â gweithgareddau amgylcheddol fel arfer, ac mae'r hyn rydym wedi'i ddysgu wedi bod yn galonogol tu hwnt i ni. Arbedodd rhai o'r grwpiau swm sylweddol o ynni ac arian, gwelodd rhai eraill eu hamgylchedd lleol a nododd eraill welliannau yn eu hiechyd a llesiant.

Felly sut wnaeth e weithio? Gofynnem i'r grwpiau a fu'n cymryd rhan i ymrwymo amser i ddatblygu cynlluniau, ac i rannu eu profiadau gyda ni. Darparodd Cymunedau Cynaliadwy Cymru ac Adfywio Cymru gyngor ymarferol, a gallai'r sefydliadau a gymerodd ran ddyfeisio eu dulliau eu hunain o ymateb i newid yn yr hinsawdd.

Darparwyd grantiau ychwanegol er mwyn i bob sefydliad gyflwyno eu syniadau, roeddent yn gallu gofyn am hyd at £10,000, ac fe ddyfarnom nifer bach a oedd ychydig uwchben hynny.

Yn ogystal â'r cyfle i gefnogi cymunedau ar draws Cymru i leihau eu hól troed amgylcheddol, roedd yn gyfle i ni brofi a dysgu fel ariannwr. Fe barhaom yn hyblyg o ran ein dull trwyddi draw, gan fonitro ac adolygu sut roeddem yn gweithio'n barhaus, ynghyd â'r effaith ar y sefydliadau a ariannwyd.

Daethom â'r holl grwpiau ynghyd mewn digwyddiad lansio yn Haf 2019. Derbyniodd y cyfranogwyr gyngor yn yr hydref, gofynnwyd iddynt ymgeisio am arian erbyn diwedd mis Tachwedd 2019 a chyflwyno gweithgareddau erbyn diwedd mis Chwefror 2020. Gofynnem iddynt ddweud wrthym am eu dysgu tua diwedd mis Chwefror 2020.

Fideo: <https://youtu.be/dCM6sR9vyxY>

Talodd yr arian gan y Loteri Genedlaethol am

- ✓ Fesurau effeithlonrwydd ynni mewn 23 o adeiladau, gan gynnwys; paneli solar, inswleiddio, boeleri, goleuadau, thermostatau, carpedi, stopfalfiau trydanol a ffenestri
- ✓ Gweithgareddau adeiladu gwybodaeth/ ymwybyddiaeth mewn chwe chymuned (gan gynnwys un astudiaeth dichonolrwydd ar ardd farchnad)
- ✓ 5 gardd/ardal natur
- ✓ 5 perllan
- ✓ 2 bwyntiau gwefru cerbydau trydan
- ✓ 2 randir

Yr effaith

Mae'n gymharol gynnar o hyd, felly nid ydym wedi gweld yr effaith lawn eto. Nid yw rhai o'r sefydliadau a gymerodd ran wedi llwyddo i gwblhau'r holl waith eto ac mae'r cyfnod clo COVID-19 wedi arafu cynnydd rhai ohonynt.

Effeithlonrwydd ynni a dŵr

Gellir dadlau bod gwneud gwelliannau i adeiladau'n ateb cyflym. Gyda swm cymharol fach o arian, gellir gostwng y defnydd o ynni a dŵr, arbed arian y sefydliad a gwella awyrgylch ac ymddangosiad yr adeilad yn gyffredinol. Yn achos deuddeg o'r prosiectau adeilad a gefnogwyd gan Gymunedau Cynaliadwy Cymru, amcangyfrifwyd mai'r arbedion blynyddol fyddai:

236,049 o gilowat oriau wedi'u harbed (sy'n gyfwerth â'r carbon a secwestrir trwy blannu 2,760 o eginblanhigion coed a dyfir am 10 mlynedd*)

Arbedwyd **56 tunnell o CO2**

* [Ffynhonnell](#)

Rhai enghreifftiau:

- Newidiodd Coleg Elidyr eu boeler gan arbed 44,389 kWh a 2.4 tCO2 bob blwyddyn.
- Newidiodd Hwb Torfaen fwy na 40 o oleuadau i rai LED. Amcangyfrifir bod yr arbediad blynyddol yn £2,019 a 5.1 tunnell o CO2.
- Mae Ymddiriedolaeth Bracken yn rhagweld gostyngiad 32% mewn costau ynni, sy'n cyfateb i arbediad o £1,063 bob blwyddyn.
- Mae Eglwys Gymunedol Afon Dyfrdwy yn rhagweld gostyngiad 68% mewn costau ynni, sef arbediad o tua £889 bob blwyddyn.
- Newidiodd Halo Leisure y system cyfnewidfa wres ar ffurf platiau ac inswleiddio yn eu cyfleuster hamdden cymunedol. Mae hyn wedi gostwng cost y nwy a ddefnyddir oddeutu £1,200 y flwyddyn.
- Gosododd Oasis Cardiff wrinalau dim dŵr sydd wedi arbed mwy na 16,000 litr o ddŵr ymhen ychydig o fisoedd mis.

Gwella gwybodaeth a newid ymddygiad

Roedd gan chwech o'r sefydliadau ddysgu neu newid ymddygiad fel amcan allweddol. I rai eraill, sgil-gynnyrch oedd hwn. Ymgymerodd Ymddiriedolaeth Bwyd a Thir Canolbarth Cymru astudiaeth dichonolrwydd sydd wedi cynyddu eu gwybodaeth yn sylweddol.

“Mae'r ymchwil wedi rhoi cryn dipyn o fewnwelediad i ni i sut mae ymddygiadau yr ystyrir eu bod yn 'wyrdd' o fewn y sector garddio cymunedol yn gallu bwydo newid yn yr hinsawdd mewn gwirionedd, a bod angen dulliau newydd o edrych ar effeithiau cyfan pob gweithgaredd i symud tuag at ddull cynllunio a gweithredu dros wella newid yn yr hinsawdd. Er enghraifft, mae compostio, yr ystyrir ei fod yn ateb cynaliadwy, mewn gwirionedd yn cynhyrchu symiau sylweddol o CO2 a nwyon tŷ gwydr trwy gydol y broses gompostio. Rydym bellach wedi cyflwyno mesurau wrth ddylunio prosiectau fel bod y nwyon a gynhyrchir yn cael eu defnyddio'n effeithiol fel adnodd o fewn y system er mwyn i'r broblem fynd yn rhan o'r datrysiad. Nid yw dweud yn syml eich bod yn anfon llai o wastraff i safleoedd tirlenwi'n ddigon bellach.

Er y bu'r ymchwil ar gyfer prosiect newydd, mae'r effaith eisoes wedi dylanwadu ar y ffordd yr ydym yn gweithio ar weithgareddau presennol, gan fod y bwrdd bellach wedi gofyn i ni edrych ar beth rydym ni'n ei wneud a gweld os oes angen unrhyw waith 'ôl-osod' i liniaru effaith andwyol yr hyn a wnawn, neu chwilio am ddulliau o wneud yr hyn a wnawn yn fwy effeithlon o safbwynt amgylcheddol.

Mae gan y cyfarwyddwyr, y maent oll yn wirfoddolwyr, ddealltwriaeth well o lawer bod gan ein holl weithgareddau effeithiau amgylcheddol, a bod ystyried y rhain ym mhob cam yn gwneud sefydliad gwell a phrosiectau gwell. Ystyrir bod arwain trwy enghraifft a medru esbonio beth rydym yn ei wneud a pham yn fwy effeithiol na hawlio credadwyaeth 'werdd' heb y sylwedd i'w chyfiawnhau.”

Mae'r rhan fwyaf o'r prosiectau awyr agored wedi dangos ei fod yn gyfrwng gwych ar gyfer cynyddu ymwybyddiaeth.

Menter Iaith Fflint a Wrecsam

“Bu disgyblion yr ysgol leol yn ymwneud â'r gwaith cynllunio ac maent eisiau helpu rheolwr y prosiect i ymgymryd â phlannu'r coed a gofalu amdanynt. Mae'r gymuned, gan gynnwys y plant ysgol lleol, hefyd wedi bod yn meddwl am ac ystyried y camau nesaf ar gyfer datblygu ail ran y berllan a'r math o ddiogwyddiadau a fydd yn annog bywyd mwy cynaliadwy a llesol i'r amgylchedd, a diogelu a chynyddu'r fioamrywiaeth y maent eisiau ei gweld yn digwydd yno yn y dyfodol.”

Mewn achosion eraill, mae cynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth wedi bod yn ddeilliant anfwriadol.

Newidiodd Hwb Torfaen fwy na 40 o oleuadau i rai LED:

“Gan fod y goleuadau gymaint yn fwy llachar, nid oes angen i ni ddefnyddio'r holl oleuadau trwy'r amser felly mae ymddygiad yn newid ac mae llai o oleuadau'n cael eu cynnau. Yn awr mae gennym bolisi amgylcheddol, mae gennym 2 berson ifanc sydd bellach yn "Eiriolwyr Hinsawdd" ac mae mynd yn garbon niwtral ar flaenau ein meddyliau, mae'r grant hwn wedi newid diwylliant ein sefydliad.”

Bioamrywiaeth/creu cynefinoedd

Mae'r rhan fwyaf o'r datblygiadau gardd a pherllan yn eu camau cynnar ac rydym yn debygol o weld yr effaith lawn ar ôl nifer o flynyddoedd. Mae'n ofyniad eu bod yn defnyddio rhywogaethau brodorol.

Cyngor Tref Amlwch Town Council

Creu gardd tyfu cymunedol, safle cadwraeth bywyd gwyllt a hyb natur addysgol. Bydd hyn yn cynnwys gwelyau uchel, ardal berllan, ardal plannu ffrwythau meddal, gerddi perlysiâu, parthau ailwylltio, cuddfan adar a gorsaf fwydo (wedi'i chydosod a'i chynnal a chadw gan y gymuned leol), llwybr natur, rhywogaethau gwrychoedd brodorol a phlannu rhywogaethau planhigion allweddol ychwanegol i gynyddu a chefnogi bioamrywiaeth.



Adeiladu hyder a chatalydd i syniadau eraill

Dywedodd y sefydliadau a gefnogwyd eu bod bellach yn teimlo'n fwy cyfforddus wrth gymryd camau hinsawdd yn eu cymunedau. Mae tystiolaeth gref o gamau pellach y tu hwnt i'r gweithgareddau ychwanegol hefyd.

Canolfan Deuluoedd Borth - "I helpu gydag effeithlonrwydd ynni ac arbedion cost rydym yn cael gosodiad gwyrdd dwbl ar y ffenestri yn y brif neuadd. Rydym yn cynllunio cwpl o gaffis yn null atgyweirio yn 2020 fel a amlinellir yn y cynllun hwn, ac rydym yn gwneud newidiadau bach o fewn y sefydliad. Er enghraifft, yn ogystal â newid eisoes i ddefnyddio sebon go iawn yn hytrach na chynwysyddion pwmp plastig, rydym bellach yn ailgylchu pecynnau creision trwy TerraCycle hefyd. Wrth baratoi at y Nadolig, gydag un o'n rhieni rydym wedi gwneud ein craceri Nadolig ein hunain gan aildefnyddio neu ddefnyddio deunyddiau ecogyfeillgar - ac roedd un rhiant wedi archebu het cracer Nadolig ffabrig gyda felcro ar y cefn 'un maint sy'n addas i bawb', mae modd ei olchi yn y peiriant ac mae'n rhywbeth a fydd yn para."

Gwrandewch ar ein podlediad Mewnwelediad Sector Cyhoeddus gydag Adfywio Cymru a Valleys Family Church i gael gwybod mwy am eu profiad o gymryd rhan yn y cynllun peilot. [Cliciwch yma i wrando.](#)

Beth ddysgom ni?

Dim ond ychydig o berswâd y mae angen ei ddwyn ar gymunedau i gymryd rhan.

O'r 30 o sefydliadau y cysylltom â hwy, dim ond dau ohonynt a ddwedodd nad oeddent mewn sefyllfa i gymryd rhan oherwydd capasiti, neu oherwydd na fyddai modd iddynt gwblhau'r gwaith o fewn graddfa amser y peilot.

Mae cyngor yn bwysig

O safbwynt ariannwr, fe alluogodd i ni gyfyngu ar faint yr wybodaeth yr oedd ei angen arnom gan deiliaid grant ac i wneud penderfyniadau cyflym gan i ni gael ein sicrhau bod deiliaid grant wedi derbyn cyngor gwrthrychol priodol.

O safbwynt deiliaid grant dywedodd 88% fod y cyngor yn bwysig a dywedodd 53% ei bod yn bwysig iawn. Dywedodd Menter Iaith Fflint a Wrecsam wrthym:

“Roedd y cyngor gan Gymunedau Cynaliadwy Cymru'n rhagorol, roeddem yn gallu bod yn hyderus ein bod yn mynd i'r afael â'r meysydd pwysicaf a bod y dyfynbrisiau yr oeddem yn eu derbyn yn rhesymol a chan gwmnïau sydd ag enw da. Wrth gael dyfynbrisiau roeddem yn gallu mynd yn ôl i'r cwmnïau a gofyn am eglurhad ar feysydd penodol oherwydd y mewnwelediadau a gawsom gan Gymunedau Cynaliadwy Cymru.”

Rydym yn ddiolchgar i Adfywio Cymru am ddod o hyd i, a chreu'r cysylltiad rhyngom ni a'n mentor, Iwan Edwards o Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru. Mae Iwan Edwards wedi bod yn gymorth mawr i ni wrth ddylunio'r berllan ac mae'n wych ei fod yn parhau i gymryd rhan yn y datblygiadau gan ei fod bellach yn Rheolwr y Prosiect ac yn arwain ar ddatblygu'r berllan.”

Mae ariannu'n bwysig

Dywedodd yr holl sefydliadau wrthym iddynt deimlo bod yr ariannu'n bwysig gyda'r mwyafrif helaeth (96%) yn nodi ei fod yn bwysig iawn. Mae'n glir bod sefydliadau'n teimlo na allant ariannu neu flaenoriaethu gweithgareddau fel y rhain.

“Ein llinell amser ar gyfer rhai o'r gwelliannau hyn oedd blynyddoedd, nid misoedd. Fe gyflymmodd y broses.”

“Nid oedd unrhyw gyllideb i gyflwyno'r paneli PV, ond roeddent yn ein cynlluniau ar y dechrau.”

Oedd £10,000 yn ddigon?

Roedd y rhaniad yn gyfartal rhwng y rhai a ddywedodd ei fod 'tua'r swm iawn' a'r rhai yr oeddent 'angen mwy'.

“Dyma grant ychwanegol nad oedd yn ymwneud ag unrhyw dendro cystadleuol, roedd yn ddigon mawr i gael effaith arwyddocaol ac rwy'n ystyried ei fod yn rhodd amserol yr

ydym yn ddiolchgar iawn amdani. O dan yr amgylchiadau hynny roedd tua'r swm iawn i ni."

"Roeddem yn gallu gwneud llawer gyda'r arian, ond nawr ein bod yn fwy "ymwybodol" mae gennym lawer o gynlluniau o ran sut y gallwn wneud hyd yn oed yn fwy o newidiadau, mae hyn diolch i'r adroddiad a baratowyd gan Gymunedau Cynaliadwy Cymru, mae gennym gynlluniau mawr ar gyfer y dyfodol."

Profiad cadarnhaol iawn i'r rhai a gymerodd ran - Cyd-drafodwyd yn frwd p'un a ddylid cynnal digwyddiad lansio a fyddai'n mynnu i bobl deithio o bob cwr o Gymru. Bwrw 'mlaen ag ef oedd y penderfyniad iawn gan iddi roi ffocws i'r peilot, cyfle i bobl godi cwestiynau a siarad â ni a'r partneriaid. Rhoddodd amser i'r deiliaid grant rwydweithio hefyd, a oedd o werth iddynt.

Ffactorau dylanwadol

Cyfyngodd **graddfeydd amser ac arian** ar yr hyn y penderfynodd cyfranogwyr ei wneud.

Dywedodd Fferm Gymunedol Abertawe wrthym "Rwy'n meddwl bod y raddfa amser fer wedi ychwanegu pwysau, teimlodd ychydig fel y ffilm Brewster's Millions. Rydym yn sefydliad bach iawn â llwythi gwaith beichus yn barod ar yr adeg honno o ganlyniad i ymrwymadau codi arian a chyflwyno, a newid mewn staffio a olygodd fod hyn yn amser arbennig o brysur. Er bod hyn yn gyfle gwych - roedd teimlad o frys a olygodd fod angen rhoi pethau eraill o'r neilltu a gweithio oriau ychwanegol."

Nid yw'r sefydliadau i gyd wedi cwblhau eu gweithgareddau. Y cyfnod gweithredu'r syniadau oedd Rhagfyr i Chwefror, y sylweddolom y byddai'n anodd i rai gweithgareddau fel gerddi cymunedol. Rhesymau eraill:

- Mae stormydd a thywydd gwael wedi achosi oedi i gynnydd
- Oedi wrth dderbyn nwyddau, yn enwedig cyfarpar arbenigol
- Derbyn caniatâd
- Cael yr adnoddau i ymrwymo'r amser i'r dasg

Beth nesaf?

Aethom ati gyda'r bwriad o brofi p'un a allem wneud cyfraniad effeithiol at ostwng effaith allyriadau amgylcheddol/carbon trwy gydweithio â deiliaid grant. Er ei fod yn ddyddiau cynnar o hyd, mae tystiolaeth glir y gallwn wneud gwahaniaeth hyd yn oed gyda symiau bach o arian. Mae parodrwydd gan grwpiau cymunedol ac elusennau i wneud hyn. O ganlyniad i'r cyfuniad o gyngor ac ariannu roedd modd cyflawni'r peilot ac fe ddangosodd ei effaith.

Rydym wedi defnyddio'r dysgu hwn i ddatblygu cam nesaf y peilot - Hwb i'r Hinsawdd. Ym mis Hydref byddwn yn gwahodd carfan arall o grwpiau cymunedol i gymryd rhan yn Hwb i'r Hinsawdd. O'i gymharu â'r ychwanegiadau, bydd mwy o ffocws ar grwpiau sy'n datblygu cynlluniau gweithredu uchelgeisiol a anelir at gamau tymor hir sefydliadol ar newid yn yr hinsawdd gan ein partneriaid [Cymunedau Cynaliadwy Cymru](#) ac [Adfywio Cymru](#). Byddwn hefyd yn cynyddu swm yr arian ychwanegol sydd ar gael ac yn darparu mwy o amser i ddatblygu a gweithredu gweithgareddau. Bydd Hwb i'r Hinsawdd yn galluogi ni i barhau i

ddysgu a thyfu fel ariannwr er mwyn sicrhau y gallwn gefnogi a galluogi dyfodol i'r trydydd sector sy'n fwy cynaliadwy yn amgylcheddol.

[Gallwch ddod o hyd i gyngor ar leihau eich effaith amgylcheddol yma.](#)